



Adroddiad ar
Ysgol Gynradd Pedr Sant, Ysgol Yr Eglwys yng Nghymru
Wirfoddol dan Reolaeth

Lôn y Capel

Rossett

Wreccsam

LL12 0EE

Dyddiad yr arolygiad: Mis Hydref 2011

gan

Mr G Morris

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011. Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Pedr Sant, ysgol yr Eglwys yng Nghymru Wirfoddol Dan Reolaeth yn gwasanaethu pentref Rossett ym Mwrdeistref Wledig Wrecsam, yn agos at y ffin gyda Lloegr. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn byw yn y pentref neu yn ei gyffiniau, ond mae nifer arwyddocaol ohonynt yn teithio i'r ysgol o'r ardaloedd cyfagos. Lleolir yr ysgol mewn ardal sydd yn gymharol lewyrchus. Ar hyn o bryd mae tua 9.4% o'r disgyblion â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Ar hyn o bryd mae 232 o ddisgyblion llawn amser ynghyd â 33 o ddisgyblion rhan amser ar y cofrestrï wedi eu trefnu yn ddeg dosbarth. Derbynia'r ysgol blant i'r feithrinfa pan fyddant yn dair blwydd oed. Dysgir y dosbarthiadau gan ddeg o athrawon llawn amser a thri athro rhan amser a gefnogir gan saith o gymorthyddion dysgu llawn amser a phedwar o gymorthyddion dysgu rhan amser.

Mae 11% o ddisgyblion wedi'u harweni fel rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan ddau ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Saesneg yw prif iaith y cartref bron pob un o'r disgyblion.

Penodwyd y pennaeth ym mis Ionawr 2007 a'r dirprwy ym mis Medi 2010.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pedr Sant yr Eglwys yng Nghymru Wirfoddol Dan Reolaeth yw £3159, sy'n cymharu gydag uchafswm o £9122 ac isafswm o £2734 ar gyfer ysgolion cynradd yn Wrecsam. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 40fed uchaf o'r 62 ysgol gynradd yn Wrecsam.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd :

- y cyflawniad da a'r cynnydd a wneir gan bron bob un o'r disgyblion;
- ansawdd y gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd sy'n arwain at safonau da o les disgyblion;
- ymrwymiad yr holl staff i ddarparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu i'r disgyblion; a'r
- partneriaethau da gyda'r rhieni, y gymuned a grwpiau eraill

Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella da oherwydd:

- y synnwyr o bwrpas a chyfeiriad a rennir gan y tîm rheoli a'r corff llywodraethu;
- dealltwriaeth dda'r ysgol o'i chryfderau a'r ardaloedd i'w datblygu ; a'r
- gymuned ddysgu effeithiol o fewn yr ysgol

Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i'r ysgol ;

- A1 barhau i wella medrau dwyieithog y disgyblion;
- A2 ddatblygu medrau disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i sicrhau eu bod yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain;
- A3 sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn gyson yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy galluog; a
- A4 sicrhau bod cyswllt cliriach rhwng y broses hunan werthuso, blaenoriaethau ar gyfer gwella deilliannau a thargedau disgyblion.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Pan fyddant yn cychwyn yn yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o'r plant fedrau sydd yn fras yn unol â'r rhai a ddisgwylir yn arferol o blant mewn ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf yn cychwyn yn yr ysgol gyda man cychwyn cadarn i'w dysgu.

Mae canlyniadau diwedd cyfnod allweddol yn dangos, yn gyffredinol, bod disgyblion yn yr ysgol yn cyflawni'n uwch na disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae gwaith yn llyfrau'r disgyblion yn dangos, pan fyddant yn ysgol Pedr Sant mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da. Yn y gwersi ac yn ystod trafodaethau, mae nifer o'r disgyblion yn galw i gof eu dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi ei ddysgu yn y rhan fwyaf o bynciau. Maent yn cymhwyso eu medrau yn dda mewn sefyllfaoedd newydd, gan ddangos hyder cynyddol fel y maent yn symud ymlaen trwy'r ysgol.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion sy'n derbyn prydau am ddim a'r rhai gydag anghenion ychwanegol yn cyflawni'n dda. Gwnânt gynnydd da mewn perthynas â'u gallu, diddordeb a'u cyrhaeddiad blaenorol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda ac yn siarad yn hyderus o oedran cynnar. Mae disgyblion iau yn siarad yn glir ac yn defnyddio ystod eang o eirfa i fynegi eu hunain. Mae disgyblion hŷn yn siaradwyr hyderus ac yn cyfathrebu'n glir a amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen (CS) yn mwynhau darllen ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau effeithiol sy'n eu galluogi i ddarllen gyda rhuglder a dealltwriaeth briodol. Medda nifer wybodaeth gadarn o synau a phatrymau llythrennau. Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod eang o destunau gyda dealltwriaeth gynyddol. Erbyn un ar ddeg mlwydd oed, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl, gyda mynegiant da. Siaradant heb orfodaeth am lyfrau ac awduron maent yn eu hoffi neu beidio â hoffi a meddant ddealltwriaeth dda o gymeriadau neu rediad stori. Mae disgyblion mwy galluog yn gallu bras ddarllen darn i gaffael ei ystyr. Mae nifer o ddisgyblion hŷn yn cyrchu gwybodaeth o destun yn hyderus neu yn gallu canfod yn annibynnol a defnyddio cyfeirlyfrau yn effeithiol i gywain gwybodaeth. Mae nifer yn cymhwyso eu sgiliau darllen yn dda mewn gwahanol bynciau. Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn dda. Mae nifer o'r disgyblion hŷn yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n hyderus ar gyfer ystod eang o ddibenion. Sillafant eiriau syml yn gywir ac maent yn dechrau defnyddio atalnodi'n gywir. Erbyn un ar ddeg mlwydd oed mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio iaith ddisgrifiadol yn dda i ysgrifennu barddoniaeth, storïau, adroddiadau a thraethiadau o deithiau neu ymweliadau. Tra bod nifer yn cymhwyso medrau llythrennedd yn dda mewn ardaloedd eraill o'r cwricwlwm, mae nifer fach yn ysgrifennu yn faith ar draws yr ystod lawn o bynciau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCH) yn dda mewn nifer o bynciau, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth mewn hanes a daearyddiaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg yn ystod gwersi Cymraeg. Yn ystod y gwersi hyn siaradant gyda hyder cynyddol, gan ddefnyddio geirfa ac ymadroddion sylfaenol. Darllenant gyda dealltwriaeth ac ysgrifennant frawddegau syml yn dda. Cyfyngedig yw defnydd y disgyblion o'r Gymraeg tu allan i'r ystafell dosbarth.

Lles: Da

Medda'r holl ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd datblygu ffordd iach o fyw. Bwytânt yn iach yn yr ysgol a chyfranogant mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon.. Teimla'r disgyblion i gyd yn ddiogel yn yr ysgol a gwyddant â phwy i siarad os ydynt yn poeni neu 'n gofidio. Maent yn ymddwyn yn dda yn y gwersi ac fel maent yn teithio o amgylch yr ysgol. Mae pob un o'r disgyblion yn dangos parch, gofal a phryder am ei gilydd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig am eu dysgu ac yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaethau. Gweithiant yn dda mewn parau neu grwpiau, gan ddangos parch at safbwyntiau eraill fel y rhannant syniadau. Mae pob un o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ynghlwm yn effeithiol gyda chynllunio eu gweithgareddau dysgu. Tra bod nifer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gweithio'n annibynnol dan gyfarwyddyd athro, nid ydynt ynghlwm yn ddigonol â gwneud penderfyniadau ynglŷn â beth a sut maent yn dysgu. Mae nifer o ddisgyblion yn datblygu medrau priodol i ddeall pa mor dda maent yn ei wneud , fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn glir beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae cyngor yr ysgol wedi ei hen sefydlu. Teimla aelodau y caiff eu syniadau eu hystyried a gwna eu penderfyniadau gyfraniad cadarnhaol i fywyd yr ysgol.

Mae presenoldeb disgyblion yn 94% er ei fod wedi dangos lleihad bychan dros y tair blynedd diwethaf., mae'n cymharu'n ffafriol iawn gyda'r ffigyrau am ysgolion tebyg. Gydag eithriadau prin, mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae cyfranogiad gweithredol disgyblion mewn nifer o weithgareddau yn y gymuned yn rhoi iddynt ddealltwriaeth dda o fywyd y gymuned a'u rôl nhw ynddi. Mae cyfranogiad y disgyblion hŷn mewn mentrau antur gydag ysgolion eraill yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth dda o fedrau datblygu cynnyrch ,cynhyrchu a marchnata. Sicrha hyn eu bod wedi eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu ac ar gyfer bywyd a gwaith tu allan i'r ysgol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae profiadau dysgu yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus mewn gweithgareddau pwrpasol sy'n cwmpasu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r profiadau dysgu yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n bodoli fel mae'r disgyblion yn symud ymlaen trwy'r ysgol. Mae'r cynllunio'n drylwyr ac yn talu sylw priodol i ddatblygu medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a TGCH y disgyblion.

Mae gweithgareddau dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgogol ac yn darparu'n effeithiol ar gyfer dysgu annibynnol.. Mae'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ar gyfer y rhan fwyaf o'r disgyblion, fodd bynnag, collir cyfleoedd i ddatblygu dysgu annibynnol disgyblion . yn enwedig y rhai mwy galluog.

Mae datblygiad yr iaith Gymraeg mewn gwersi yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i alluogi disgyblion i fod yn fwyfwy dwyieithog mor gryf.. Mae'r defnydd o Gymraeg achlysurol gan athrawon a staff cefnogi yn datblygu'n dda, fodd bynnag, ni roir digon o bwyslais ar hyrwyddo nodweddion diwylliannol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth dda ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang a gwneir defnydd da o gysylltiadau gyda'r gymuned leol a rhannau eraill o'r byd, er enghraifft gwlad Pwyl. Mae bod yn rhan o fentrau arbed ynni, fel "Prosiect Zero", yn galluogi'r disgyblion i gaffael dealltwriaeth dda iawn am gynladwyedd.

Addysgu: Da

Yn gyffredinol mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae gan bob un athro wybodaeth bynciol gyfredol ac fe rennir amcanion dysgu clir gyda'r disgyblion ymhob gwrs. Defnyddia athrawon a staff cefnogi ystod dda o strategaethau addysgu i ennyn diddordeb ac i gymell dysgu'r disgyblion. Mae cymorthyddion dysgu yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i ddysgu'r disgyblion.

Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae'r addysgu yn ysgogi disgyblion o bob gallu yn effeithiol i weithio'n annibynnol. Mae'r gwersi hyn yn llwyddiannus yn cymell a herio'r mwy galluog ac yn cynnig cyfleoedd i bob disgybl i asesu eu dysgu eu hunain yn erbyn amcanion a osodir. Yn yr ychydig wersi ble nad yw 'r addysgu mor effeithiol, mae diffyg cyflymder i'r addysgu ac nid yw'r tasgau dysgu yn gyson yn diwallu anghenion y disgyblion i gyd. Ar adegau mae'r gwersi wedi eu gorgyfeirio ac , o ganlyniad, collir cyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu dulliau dysgu unigol.

Darpara'r athrawon adborth da i'r disgyblion. Mae'r marcio yn rheolaidd ac mae'r sylwadau ysgrifenedig yn llyfrau'r disgyblion yn gefnogol. Cynorthwya hyn y disgyblion i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Tracir cynnydd disgyblion yn ofalus ar draws yr ysgol. O'r herwydd medda'r athrawon ddealltwriaeth dda o gynnydd disgybl. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i arenwi a

chefnogi disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni. Mae'r adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth ac yn nodi beth mae angen i'r disgyblion ei wneud i wella yn y pynciau craidd.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol ar gael i gefnogi iechyd a lles disgyblion ac mae'r trefniadau hyn cefnogi eu dysgu yn effeithiol. Mae cynrychiolaeth disgyblion drwy'r Grŵp Iechyd yn hynod effeithiol gan sicrhau cyfranogiad disgyblion.

Mae profiadau dysgu'n hyrwyddo datblygiad personol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n effeithiol gydag asiantaethau arbenigol a gwna ddefnydd da o gefnogaeth broffesiynol er enghraifft Seicolegydd Addysg, Gwasanaeth Cefnogi Teithwyr, ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Darparu'r ysgol gefnogaeth dda ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithdrefnau priodol ar gael i arenwi disgyblion sydd efallai ag anghenion penodol ac mae strategaethau ymyrraeth effeithiol ar gael i gefnogi'r disgyblion hyn. Penderfynir ar lefel y gefnogaeth yn ôl yr angen a mesurir a monitrir effaith rhaglenni penodol megis "catch-up" yn erbyn meini prawf llwyddiant clir. Cedwir mewn cysylltiad â rhieni disgyblion a arenwir trwy gydol yr holl broses ac maent yn cyfarfod â'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) a'r athro anghenion addysgol arbennig (AAA) i drafod cynnydd eu plentyn ac i adolygu'r Cynllun Addysg Unigol (CAU).

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel, sicr a chynhwysol ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae'r ethos gofalgwr yn amlwg ar unwaith ac fe'i hadlewyrchir yn holl weithgareddau'r ysgol. Yn y cyfarfod roedd y rhieni yn ganmoliaethus iawn o'r modd mae disgyblion hyn yn gofalu am ac yn cefnogi'r disgyblion iau yn ystod amser cinio.

Mae polisi'r ysgol ynglŷn â Chyfle Cyfartal ac i atal bwlio, rhagfarn rhyw a hiliaeth yn cael eu gweithredu'n gyson. Cadarnha disgyblion caiff yr achosion prin iawn o fwlio eu delio â'n effeithiol.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion gydag anableddau yn derbyn triniaeth lai ffafriol o'u cymharu â disgyblion eraill.

Mae'r adeiladau'n darparu amgylchedd dysgu lliwgar ac ysgogol sy'n adlewyrchu'r disgwyliadau uchel sy'n amlwg yn yr ysgol. Mae offer da yn yr ystafelloedd dosbarth ac mae gan bob un o'r disgyblion fynediad at gyfrifiaduron a byrddau gwyn rhyngweithiol, a ddefnyddir yn dda i gefnogi dysgu. Mae'r tiroedd helaeth sy'n cael eu cynnal yn dda yn darparu mynediad da i'r holl ddisgyblion at offer antur, ardal gadwraeth a maes chwarae. Gwneir defnydd llawn gan ddisgyblion yn y Cyfnod

Sylfaen o'r ardal ddysgu awyr agored liwgar sydd â mynediad hawdd o bob ystafell ddosbarth y Cyfnod Sylfaen.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r tîm rheoli a'r corff llywodraethu yn rhannu synnwyr cyffredin o bwrpas a chyfeiriad. Meddant weledigaeth glir ac ymrwymiad i ddarparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu i'r holl ddisgyblion. Caiff hyn effaith cadarnhaol iawn ar ethos yr ysgol.

Mae gan bob aelod o staff swydd ddisgrifiadau clir ac maent yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u dyletswyddau. Mae trefniadau rheoli perfformiad wedi eu sefydlu'n dda ac fe'i gweithredir yn effeithiol. Darpara gyfarfodydd staff rheolaidd gyfleoedd da iawn i bawb i drafod cynnydd, gaffael sgiliau newydd ac i fyfrio ar a rhannu arfer dda.

Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu goblygiadau statudol ac yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae ganddynt wybodaeth dda am berfformiad disgyblion a sut mae hyn yn cymharu gyda pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg. Cynorthwya hyn nhw i ddatblygu eu rôl o herio a chefnogi'r ysgol yn effeithiol fel " cyfeillion beirniadol".

Mae'r ysgol yn barod i dderbyn syniadau newydd ac yn eiddgar iawn i geisio ffyrdd newydd ac anturus i wella darpariaeth. Mae'r ysgol yn rhagweithiol iawn wrth ymestyn cyfranogiad disgyblion trwy'r cynghorau Ysgol, Eco, ac Iechyd.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r broses o hunan werthuso a chynllunio datblygiad yn gyffredinol yn dda. Ceir ymdriniaeth ysgol gyfan glir i hunan werthuso sy'n defnyddio ystod o wybodaeth bwrpasol. Mae diwylliant hunan feirniadol a chefnogol wedi ei sefydlu'n dda i wella deilliannau a lles. Mae'n cynnwys gwerthuso a monitro trylwyr o ddata gan ystyried yn ofalus dueddiadau a chynnydd dros amser. Mae gweithgareddau monitro llwyddiannus eraill yn cynnwys, arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a siarad â disgyblion. Rhieni ac eraill sydd â diddordeb. Ymfynnir safbwyntiau disgyblion trwy gyfrwng cyngor yr ysgol ac fe'i hystyrir a'u parchu yn llawn. Ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu hyder i gyflwyno syniadau a dylanwadu newidiadau. Mae'r ymdriniaethau hyn yn arwain i'r ysgol gaffael dealltwriaeth dda o'u chryfderau ac ardaloedd ar gyfer datblygu.

Cytunir ar flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol (CDY) yn dilyn archwiliadau a dadansoddiad o wybodaeth sydd ar gael. Cytunwyd ar gynllun cryno tair blynedd o flaenoriaethau sy'n amlinellu'n glir gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'r blaenoriaethau yn y CDY am 2011-2012 wedi canolbwyntio'n bennaf ar wella darpariaeth, ond nid ydynt wedi canolbwyntio digon ar wella deilliannau disgyblion. Nid yw'r cysylltiad rhwng y broses hunan werthuso, blaenoriaethau yn y CDY a beth yw'r hyn mae'r ysgol yn disgwyl i'r disgyblion wella arno pob amser yn glir. Mae'r gymuned dysgu broffesiynol o fewn yr ysgol a thu hwnt yn galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu

gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol ac yn llwyddiannus. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolwg diwethaf.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio yn effeithiol iawn gydag ystod dda o bartneriaid. Mae ganddi gysylltiadau cryf iawn gyda'r gymuned a chysylltiadau a chyfathrebu da gyda rhieni/gofalwyr. Gweithia'r ysgol yn effeithiol gydag ystod o asiantaethau sy'n galluogi aelodau o staff i gynnig cefnogaeth effeithiol sy'n gwella profiadau dysgu a lles disgyblion.

Mae partneriaethau da o fewn y teulu lleol o ysgolion. Mae cymedroli gwaith disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn darparu gwell dealltwriaeth ymysg athrawon o ddulliau asesu a safonau cyrhaeddiad. Defnyddiant y rhain yn dda. Mae cyfarfodydd cynllunio gyda'r ysgol uwchradd leol yn lleddfu pontio disgyblion blwyddyn 6 yn effeithiol.

Rheoli adnoddau: Da

Medda'r athrawon i gyd wybodaeth bynciol ac arbenigedd da i addysgu'r cwricwlwm. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu.

Nodwedd arbennig o dda o'r ysgol yw'r modd effeithiol caiff staff cefnogi a gwirfoddolwyr eu gwerthfawrogi, hyfforddi a'u lleoli i gefnogi grwpiau o ddisgyblion.

Trwy'r ysgol ceir ystod dda o adnoddau safonol a ddefnyddir yn dda i gefnogi addysgu a dysgu. Gwneir defnydd da iawn o'r gofod sydd ar gael. Mae gan yr ysgol strategaethau a phrosesau priodol i gwrdd â gofynion statudol y Cytundeb Cenedlaethol ar "Godi Safonau a Thaclo Baich Gwaith".

Mae'r cysylltiad rhwng blaenoriaethau ar gyfer gwelliant a gwariant yn glir. Enghraifft dda o hyn yw'r buddsoddiad wnaeth yr ysgol wrth brynu byrddau gwyn electroneg ar gyfer pob ystafell ddosbarth.

Mae rheolaeth rymus ac effeithlon o gyllideb yr ysgol. Defnyddir cyllideb yr ysgol yn dda i wella darpariaeth. Oherwydd hyn a'r deilliannau a gyflawnir, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae canlyniadau cyffredinol yn dangos bod yr ysgol yn 2011 wedi cyflawni'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r awdurdod lleol.

Yng nghyfnod allweddol 1 yn 2011, o'u cymharu ag ysgolion gyda'r un canran o brydau ysgol am ddim, roedd ysgol Pedr Sant yn y 50% uchaf ar gyfer Saesneg a mathemateg ond yn y 50% is ar gyfer gwyddoniaeth. Mae'r canran o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel 3 uwch mewn Saesneg ymysg yr uchaf yn y teulu. Mae'n unol â chyfartaledd y teulu mewn mathemateg ond yn is na'r cyfartaledd mewn gwyddoniaeth.

Dros y pedair blynedd diwethaf mae tueddiadau yn dangos yn gyffredinol bod yr ysgol yn perfformio'n dda ac mae fel arfer yn y 50 % uchaf o ysgolion tebyg. Yn ystod yr amser hwn mae perfformiad ar y lefel 3 uwch wedi gwella ac mae wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, yr awdurdod lleol ac ysgolion tebyg am y ddwy flynedd diwethaf.

Mae canlyniadau asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn gosod ysgol Pedr Sant yn y 50% uchaf mewn Saesneg a mathemateg ond yn y 50% isaf ar gyfer gwyddoniaeth o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r canran o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel 5 uwch yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn y tri phwnc. Mewn mathemateg yr ysgol yw'r uchaf yn y teulu. Dros y pedair blynedd diwethaf mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 2, ar y lefel disgwylidig, yn gyson uwch na'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru a'r awdurdod lleol ac yn gyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd am ysgolion tebyg. Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel 5 uwch mewn Saesneg yn gyson yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg. Mewn mathemateg mae Ysgol Pedr Sant wedi bod yn y 25% uchaf mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Nid yw cyflawniad disgyblion ar y lefel uwch mewn gwyddoniaeth cystal.

Yng nghyfnod allweddol 1 mae bechgyn yn gyffredinol yn gwneud yn well na'r merched. Am y ddwy flynedd diwethaf mae bechgyn wedi perfformio'n well na'r merched ymhob un o'r tri phwnc heblaw am y lefel uwch mewn Saesneg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae merched yn gyffredinol yn gwneud yn well na bechgyn ar y lefel uwch. Er bod bechgyn wedi gwneud yn well na'r merched yn 2011 ar y lefel ddisgwylidig, gwnaeth y merched yn well na'r bechgyn ymhob un o'r tri phwnc ar y lefel uwch.

Mae craffu ar waith disgyblion a thystiolaeth o'r arsylwadau dosbarth yn cadarnhau'n llwyr y barnau hyn.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhaodd dau ddeg chwech o rieni'r holiadur. Ychwanegodd dau ddeg un ohonynt sylwadau ysgrifenedig. Mae'r mwyafrif yn gadarnhaol ac yn mynegi boddhad cyffredinol gyda'r ysgol. Mynegodd ychydig bryderon ynglŷn â'n bennaf y cynnydd a wna eu plant, ymateb yr ysgol i anghenion unigol a diffyg cysondeb ymddangosiadol yn y ddarpariaeth.

Mae pob un o'r rhieni yn;

- dweud bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol;
- ystyried bod yr ysgol yn trin pob disgybl yn deg a gyda pharch;
- meddwl bod eu plentyn yn cael ei annog/hannog i gadw'n iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd
- meddwl bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- meddwl bod eu plentyn yn cael help i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau; a'i fod/bod yn cael ei baratoi/pharatoi yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r cam nesaf o'i addysg /haddysg.

Mae bron pob un rhiant yn:

- credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda;
- teimlo bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymsefydlu'n dda ac yn meddwl bod disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- ystyried bod yr addysgu'n dda a bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau/gorau;
- teimlo'n gyfforddus am gysylltu â'r ysgol gydag unrhyw awgrymiadau neu broblemau; a
- theimlo y darperir ystod dda o weithgareddau.

Er bod nifer o rieni wedi mynegi boddhad cyffredinol gyda'r ysgol, roedd rhai yn pryderu am;

- y cynnydd a wna eu plentyn yn yr ysgol ac nad yw'r gwaith cartref a roddwyd yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- nad ydynt yn cael digon o wybodaeth am gynnydd eu plentyn;
- y gefnogaeth ychwanegol dderbynia eu plentyn mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol arbennig; ac nad ydynt yn deall y gweithdrefnau ynglŷn â delio gyda chwynion.

Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd cant a dau o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur.

Roedd pob un o'r disgyblion yn :

- dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- gwybod i bwy o ofyn pe baent yn canfod y gwaith yn anodd

Roedd bron pob un o'r disgyblion yn:

- ystyried bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio;
- dweud eu bod yn gwybod â phwy i siarad pe baent yn poeni neu yn pryderu;
- meddwl eu bod yn dysgu i fod yn iach;
- credu eu bod yn derbyn digon o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- meddwl eu bod yn cael help i ddysgu a gwneud cynnydd;
- ystyried bod gwaith cartref yn ei helpu i wella;
- meddwl bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer ; a
- theimlo bod disgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Nid oedd nifer fach o ddisgyblion yn:

- meddwl bod pob disgybl yn ymddwyn yn dda fel eu bod yn gallu cwblhau eu gwaith.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Mr Goronwy Morris	Arolygydd Cofnodol
Mr Merfyn Lloyd Jones	Arolygydd Tîm
Mr Kerry Jones	Arolygydd Lleyg
Mrs Margery Brown	Arolygydd Cymheiriaid
Mrs H Pritchard	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11